Papur y Bwrdd

27 Mawrth 2015

Teitl y Papur	**Safonau Iaith Gymraeg – Ymchwiliad a Chynnydd y Cynllun**
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 22.15**
Noddwr y Papur: **Paratowyd y Papur gan:**	**Ashleigh Dunn** **Lyn Williams**

Pwrpas y Papur:	**Gwybodaeth**
Argymhelliad:	• Hysbysu'r Bwrdd am y Safonau Iaith Gymraeg arfaethedig a'n gwaith parhaus i sicrhau cydymffurfiaeth pan gyflwynir y Safonau - dylid cyfeirio at yr atodiad yng nghorff y papur i ddechrau, nid y daflen grynhoi eglurhaol • Rhoi adborth ar Adroddiad Monitro Blynyddol 2014-14 a llwyddiant ein rhaglen Hyfforddiant Iaith.
Angen Penderfyniad:	Amherthnasol

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru dwyieithog mewn sefyllfa gryfach i weithio gyda sefydliadau a phartneriaid eraill yng Nghymru i gyflawni canlyniadau gwell i'r amgylchedd. **Effaith ar yr Economi**: Amherthnasol. **Effaith ar y Gymuned**: Galluogi ein sefydliad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd a chyfathrebu'n effeithiol gyda'r holl gymunedau rydym yn eu gwasanaethu. **Effaith ar Wybodaeth**: Bydd ein gallu dwyieithog yn cryfhau ein gallu i rannu a datblygu gwybodaeth gyda phartneriaid a sefydliadau academaidd ledled Cymru.

Pwnc

1. Darparu gwybodaeth i'r Bwrdd am y Safonau arfaethedig, y cerrig milltir allweddol a'n gwaith parhaus i sicrhau cydymffurfiaeth.

2. Diweddaru'r Bwrdd ar Adroddiad Monitro Blynyddol 2013-14 a llwyddiant ein rhaglen hyfforddiant iaith.

Crynodeb

3. Bydd y Safonau'n egluro sut mae disgwyl i sefydliadau cyhoeddus ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwasanaethau Cymraeg cyson ledled sefydliadau cyhoeddus a gwella eu hansawdd. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg ynghylch y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn y Gymraeg.

4. Rhoi adborth i'r Bwrdd ar ein Hadroddiad Monitro Blynyddol 2013-14 yn dilyn cyfarfod adolygu â Chomisiynydd y Gymraeg. Amlygu'r meysydd arfer gorau a nodwyd a sut rydym yn bwriadu datblygu'r rhain ymhellach.

Cefndir

5. Ers papur diwethaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2014, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cwblhau cam cyntaf yr Ymchwiliad Safonau a oedd yn cynnwys Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan o ail gam yr Ymchwiliad Safonau ynghyd â 119 o sefydliadau eraill a ariennir gan arian cyhoeddus.

6. Roedd gofyn i CNC ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth i ddangos i ba raddau y byddai'r sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r safonau a nodwyd, pe bai'r safonau hynny'n cael eu gwneud yn hollol berthnasol i ni. Mae'n bosibl cael yr ymateb ar gais gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

7. Mewn paratoad at yr Ymchwiliad, ysgrifennwyd Cynllun Iaith Gymraeg CNC gyda'r Safonau arfaethedig yn y cof. O ganlyniad, roedd rhan fwyaf o'r wybodaeth oedd ei hangen ar gyfer yr Ymchwiliad i'w chael yn y Cynllun ei hun. Casglwyd rhagor o wybodaeth nad oedd yn y Cynllun gan rannau priodol o'r busnes.

8. Cyflwynwyd Adroddiad Monitro Blynyddol 2013-14, a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2014, i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Awst 2014. Ers hynny, mae'r Comisiynydd wedi cymeradwyo'r adroddiad hwn a'i gyhoeddi ar ei wefan.

9. Mewn cyfarfod dilynol ym mis Tachwedd 2014 dywedodd swyddfa'r Comisiynydd eu bod yn fodlon â'r cynnydd roedd CNC wedi'i wneud hyd yn hyn o ran gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg. Amlygwyd dau faes arfer da yn y cyfarfod – cyfraniad Cynghorwyr Polisi Iaith Gymraeg at y broses recriwtio a Rhaglen Hyfforddiant Iaith CNC.

10. Lansiwyd rhaglen hyfforddiant iaith CNC ym mis Mehefin 2014 oedd yn rhoi cyfle i'r holl staff ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg.

11. Mae'r rhaglen hon wedi bod yn llwyddiannus gyda 256 aelod o staff nad oedd ganddynt sgiliau Cymraeg yn mynychu cwrs "Cyfarch" undydd i ddysgu sut i ynganu enwau lleoedd, enwau personol a chyfarch yn y Gymraeg. Cynhaliwyd dosbarthiadau "Mynediad/Dechreuwyr" mewnol dros y flwyddyn ddiwethaf gyda 115 aelod o staff yn mynychu'r rhain. Mae 128 aelod o staff hefyd yn mynd i ddosbarthiadau ar wahanol lefelau gyda darparwyr dysgu ledled Cymru. Mae'r rhaglen hon yn parhau i helpu CNC i gyflawni'r targed o 30% o staff yn gallu cyfathrebu yn hyderus yn y Gymraeg, fel y nodwyd yn y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.

Y Camau Nesaf

12. Yn dilyn cwblhau'r Ymchwiliad Safonau, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn paratoi adroddiad safonau ar gyfer Gweinidogion Cymru erbyn diwedd mis Mai 2015. Bydd yr adroddiad yn cyflwyno casgliadau'r Ymchwiliad Safonau, rhesymau'r Comisiynydd a bydd copi o'r adroddiad yn cael ei anfon i CNC.

13. Bydd Gweinidogion Cymru'n trafod canfyddiadau'r adroddiad yn y Senedd yn hydref 2015 ac yn penderfynu pa safonau y dylid eu cynnwys a dyddiad gweithredu pob safon.

14. Nid yw'n debygol y bydd y Safonau yn cael eu gorfodi ar CNC ar yr un pryd, ond ar ôl i hynny ddigwydd byddant yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol CNC.

15. Ar ôl cadarnhau'r Safonau sy'n berthnasol i CNC bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i sicrhau bod CNC yn cydymffurfio'n llawn â phob un o'r Safonau erbyn y dyddiad gweithredu. Rydym yn hyderus y gallwn wneud hyn gan ein bod wedi ysgrifennu ein Cynllun Iaith Gymraeg gyda'r Safonau arfaethedig yn y cof.

16. Bydd Sgiliau Dwyieithog CNC sy'n rhan o'n Cynllun Iaith Gymraeg yn dod yn hollol weithredol erbyn mis Rhagfyr 2015. Defnyddir y wybodaeth hon wrth recriwtio staff.

17. Cyflwynir yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf i'r Bwrdd ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2015 cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Risgiau

18. Bydd y Comisiynydd yn rheoleiddio CNC a gall gyflwyno cosb sifil mewn achos o fethu â chydymffurfio â Safon berthnasol; gallai hyn arwain at niweidio enw da'r sefydliad a diffyg ymddiriedaeth gan y cymunedau, y partneriaid ac aelodau'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu.

Goblygiadau Ariannol

19. Gellir parhau i weithredu'r Cynllun o fewn y cyllidebau cyfredol ond byddwn yn adolygu hyn pan fyddwn yn gwybod beth yw effaith lawn y Safonau.

Cyfathrebu

20. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'n Polisi Iaith Mewnol tra bydd y Safonau'n cael eu pennu. Ar ôl iddynt gael eu pennu, bydd y Cynghorydd Polisi Iaith Gymraeg ac aelodau'r Grŵp Pencampwyr yn mynychu cyfarfodydd tîm ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun, ei ofynion ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Safonau.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

21. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Iaith Gymraeg cyn diwrnod breinio'r sefydliad. Byddwn yn adolygu'r Asesiad ar ôl i'r Safonau gael eu pennu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu.